

**Darlithydd/Uwch Ddarlithydd yn y Gyfraith
Adran y Gyfraith a Throsedddeg**

36.5 awr yr wythnos

Darlithydd (Gradd 7): £36,914 - £40,322 y flwyddyn

Uwch Ddarlithydd (Gradd 8): £41,526 - £49,553 y flwyddyn

I hyrwyddo gweithlu hyblyg, bydd y Brifysgol yn ystyried ceisiadau gan unigolion sy'n ceisio am swydd gyda threfniadau gweithio llawn amser, rhan amser, rhannu swydd, neu yn ystod y tymor yn unig.

Mae Adran y Gyfraith a Throsedddeg yn dymuno penodi Darlithydd / Uwch Ddarlithydd yn y Gyfraith, gyda chyfrifoldeb penodol ar gyfer chwarae rhan strategol a gweithredol allweddol wrth ddatblygu agweddau galwedigaethol ac ymarferol dysgu ac ymchwil yr Adran, yn arbennig arwain, cynllunio a darparu cyrsiau paratoadol ar gyfer Cymal 1 Arholiadau Cymhwysio Cyfreithwyr (SQE 1).

Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus brofiad wrth ddarparu yr LPC, BPTC neu hyfforddiant galwedigaethol tebyg ac fe fydd yn unigolyn rhagweithiol sydd hefyd yn chwaraewr tîm da, gydag ymrwymiad cryf i sicrhau cyrhaeddiad academiaidd a phrofiad myfyrwyr rhagorol mewn amgylchedd ar-lein a wyneb-yn-wyneb. Bydd hefyd yn gallu cyfrannu at ddysgu cyrsiau academiaidd eraill (QLD y DG).

Ni fydd gyda'r ymgeisydd llwyddiannus gyfrifoldeb ffurfiol am ymchwil, yn yr ystyr bod angen i nhw ddarparu allbynnau ymchwil wedi eu adolygu gan gyfoedion academiaidd. Beth bynnag, bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus gyfrannu at yr amgylchedd ymchwil trwy ymgysylltu gyda'r adran fel cymuned o ysgolheigion, ac i wneud ymchwil er mwyn sicrhau bod eu gwybodaeth yn gyfredol er mwyn galluogi darparieth ddysgu heb ei ail.

Ceir rhagor o wybodaeth am Adran y Gyfraith a Throsedddeg ar ein gwefan: <https://www.aber.ac.uk/cy/lac/>. Gellir gwneud ymholiadau anffurfiol drwy gysylltu â'r Athro Emyr Lewis ar tol20@aber.ac.uk.

Cyf: LAW.20.3257

Am fwy o wybodaeth ac i ymgeisio, ewch i <https://jobs.aber.ac.uk/cy/home.html>. Rydym yn croesawu ymgeiswyr o bob cefndir a chymuned, ac yn benodol y rhai sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn ein gweithlu ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn cynnwys ond nid ydynt yn gyfyngedig i ymgeiswyr Duon, Asiaidd ac o Leiafrifoedd Ethnig (BAME), ymgeiswyr sydd ag anabledau ac ymgeiswyr benywaidd. Rydym yn annog ymgeiswyr benywaidd yn benodol i ymgeisio am y swydd hon gan nad ydynt wedi'u cynrychioli'n ddigonol ar y lefel hon yn ein sefydliad ar hyn o bryd.



Sefydliad Dwyieithog sy'n cydymffurfio â Safonau'r Iaith Gymraeg ac sy'n ymroddedig i Gyfle Cyfartal. Mae croeso i chi wneud cais am unrhyw swydd yn Gymraeg neu yn Saesneg a bydd pob cais a gyflwynir yn cael eu trin yn gyfartal.

FEL ARFER FE BENODIR I SWYDDI O FEWN 4-8 WYTHNOS WEDI'R DYDDIAD CAU.

Manylion Pellach

Y mae'r disgrifiad swydd hwn yn amodol ar ei adolygu a'i ddiwygio yng ngoleuni anghenion cyfnewidiol y Brifysgol, i ddarparu cyfleoedd datblygu priodol ac/neu i ychwanegu dyletswyddau ychwanegol eraill.

Sylfaenwyd Adran y Gyfraith a Throseddeg yn Aberystwyth ym 1901 fel Adran y Gyfraith. Ers y cychwyn, mae wedi cyfuno ymchwil, dysgu ac ysgolheictod o'r safon uchaf gydag enw da rhyngwladol am baratoi myfyrwyr ar gyfer ymarfer y gyfraith. Ymysg ei alumni ac alumnae o gwmpas y byd mae nifer o ymarferwyr amlwg, y mae nifer ohonynt hefyd wedi dod yn farnwyr ac yn bobl flaenllaw mewn meysydd eraill. Mae'r Adran yn cyflawni ymchwil sydd yn ymwneud yn uniongyrchol ag ymarfer y gyfraith.

Mae'r Adran wedi ymrwymo i bolisi o arloesi a datblygu mewn dysgu ac ymchwil ac mae'n gyson yn adolygu ystod a chynnwys ei chynlluniau gradd a'i dulliau o ddysgu ac asesu er mwyn ymateb yn effeithiol i anghenion ac i ddisgwyliadau ei myfyrwyr ac i ofynion y proffesiwn cyfreithiol. Amcan yr Adran yw darparu'r dewis mwyaf wrth ddarparu addysg gan sicrhau bod ein dysgu wedi ei thrwytho mewn ysgolheictod gyfoes o'r safon uchaf.

Prif Gyfrifoldebau a Dyletswyddau

- Chwarae rhan flaenllaw wrth ddatblygu agweddau galwedigaethol ar weithgareddau'r Adran, gan gydweithio gyda Phennaeth yr Adran a'r Cyfarwyddwr Adrannol dros Ddysgu ac Addysgu.
- Cynllunio, datblygu a darparu ystod o gyrsiau (gan gynnwys modiwlau paratoadol SQE newydd) ar wahanol lefelau.
- Datblygu a gweithredu technegau dysgu arloesol a phriodol.
- Bod yn gyfrifol am safon, awdit ac asesiadau allanol eraill yn ymwneud â'i chysiau / gyrsiau ei hun.
- Gosod a marcio asesiadau, a darparu adborth adeiladol i fyfyrwyr.
- Darparu arweiniad academiaidd i'r rhai hynny sy'n gweithio oddi mewn i'w chynlluniau / gynlluniau.
- Cyfrannu yn weithredol fel aelod o dîm dysgu, mynychu cyfarfodydd priodol a chyfrannu atynt, rhannu arfer da, cydgyssylltu a rhwydweithio.
- Cyfrannu at agweddau eraill o weithgaredd galwedigaethol yr Adran.
- Gwneud ymchwil pedagogaidd ac ysgolheigaidd.
- Cyfrifol am faterion yn ymwneud â gofal bugeiliol dros fyfyrwyr a thros gydweithwyr yn ei maes / ei faes ei hun.
- Darparu cefnogaeth fel tiwtor personol i fyfyrwyr penodol yn unol â pholisi'r Brifysgol.
- Rheoli gwneud penderfyniadau mewn modd priodol lle bo hynny'n effeithio ar fyfyrwyr unigol, gan gadw at weithdrefnau a pholisiau safonol y Brifysgol.



- Delio gyda phroblemau a all effeithio ar ddarparu modiwl, gan bwysu a mesur er mwyn rhoi ar waith ddulliau priodol o ddysgu, cymorth i ddysgu a gweithgareddau ysgolheigaidd.
- Ymgymryd â dyletswyddau a chyfrifoldebau iechyd a diogelwch sy'n briodol i'r swydd.
- Bod yn ymroddedig i Bolisi Cyfle Cyfartal ac Amrywioldeb y Brifysgol, ynghyd â dealltwriaeth ynglŷn â sut y mae'n gweithredu o fewn cyfrifoldebau'r swydd.
- Bod yn ymroddedig i'ch datblygiad eich hunan a datblygiad eich staff, drwy ddefnyddio proses 'Cynllun Cyfraniad Effeithiol y Brifysgol yn effeithiol.
- Unrhyw ddyletswydd resymol a gofynnir sy'n gymesur â gradd y rôl.

Mae cyfrifoldebau'r swydd wedi cael ei pharu gyda'r Proffil Swydd Academiaidd Addysgu ac Ysgoloriaeth 2 a 3. Gellir dod o hyd i fanylion am broffil y swydd yma:

A&Y2:

<https://www.aber.ac.uk/en/media/departmental/humanresources/frameworkagreement/academicprofiles/TS2C.pdf>

A&Y3:

<https://www.aber.ac.uk/en/media/departmental/humanresources/frameworkagreement/academicprofiles/TR3C.pdf>

Manyleb yr Unigolyn

Cymwysterau, Profiad, Gwybodaeth a Sgiliau sy'n ofynnol:	
Hanfodol	Dymunol
1. Gradd anrhydedd yn y Gyfraith (Cymhwyso y DG) neu mewn pwnc arall, ar y cyd â Diploma Graddedig yn y Gyfraith.	1. Cymhwyster dysgu perthnasol (ee Ymarferydd Academi Addysg Uwch (HEA) Practitioner neu gymhwyster cyfatebol) neu brofiad dysgu sylweddol gydag ymrwymiad i gyrraedd y Safonau Dysgu Proffesiynol gofynnol.
2. Cymhwyster proffesiynol perthnasol (LPC/BPTC) neu gymhwyster gradd Meistr yn y Gyfraith neu bwnc cytras.	2. Profiad o ddysgu pynciau cyfreithiol craidd (Gradd Cymhwyso'r Gyfraith y DG) yn ogystal ag ystod o fodiwlau dewisol.
3. Profiad o ddarparu'r LPC, BPTC neu hyfforddiant galwedigaethol cyfatebol, wedi ei achredu yng Nghymru a Lloegr.	3. Profiad o waith ymarferol cyfreithiol.



4. Profiad o gynllunio, datblygu a rheoli modiwlau a rhaglenni dysgu.	4. Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus.
5. Sgiliau effeithiol o ran arwain a gweithio mewn tîm.	5. Tystiolaeth o weinyddu academiaidd – yn arbennig cydlynu cynlluniau gradd a derbyn myfyrwyr.
6. Sgiliau ardderchog o ran cyfathrebu yn ysgrifenedig ac ar lafar ar wahanol lefelau ac i wahanol gynulleidfaeodd.	
7. Sgiliau trefnu a gweinyddu da gyda'r gallu i gwrdd â therfynau amser.	
8. Y gallu i weithio yn dda ac yn hyblyg gyda chydweithwyr mewn awyrgylch tîm.	
9. Y gallu i ddefnyddio TG yn hyderus, gan gynnwys y rhyngrwyd, cyfryngau cymdeithasol, e-bost a phecynnau cyflwyno.	
10. Y gallu i ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau asesu.	
11. Maes arbenigol sy'n cydweddu ag un neu fwy o bynciau sy'n berthnasol i ymarfer y gyfraith.	
12. Gwybodaeth dda am yr SQE ac am sut mae addysg gyfreithiol alwedigaethol yn datblygu.	
13. Gwybodaeth eang am faes Ymarfer y Gyfraith a materion cyfredol perthnasol.	



14. Gwybodaeth am sefydliadau perthnasol yn y sector a chyrrff rheoleiddio proffesiynol.	
15. Y gallu i ddeall natur ddwyieithog y Brifysgol ac ymwybyddiaeth o'r trefniadau sydd mewn lle i gefnogi gweithio yn ddwyieithog.	Lefel Cymraeg Llafar (siarad) ac Ysgrifenedig B1.*

*Gellir dod o hyd i fwy o fanylion am Lefelau'r Iaith Gymraeg yma:

<https://www.aber.ac.uk/cy/hr/policy-and-procedure/welsh-standards/>

